

# Polisi Casglu Metrigau Diogelwch Gwybodaeth



Rhif y Fersiwn:	1.2
Dogfen Statws:	Cymeradwywyd
Dyddiad Cymeradwyo:	19 Ebrill 2018
Cymeradwywyd Gan:	Grŵp Goruchwyllo Rheoli Data a Gwybodaeth
Dyddiad Dod i Rym:	19 Ebrill 2018
Dyddiad yr Adolygiad Nesaf:	Mawrth 2020

## 1 Diben

Pwrpas y polisi hwn yw pennu fframwaith ar gyfer casglu metrigau diogelwch gwybodaeth fydd yn hwyluso'r broses o reoli perfformiad diogelwch gwybodaeth y Brifysgol.

## 2 Cwmpas

Mae cwmpas y polisi hwn yn cynnwys yr holl fetrigau y mae modd adrodd amdanynt, a metrigau posibl yn y dyfodol, sy'n rhoi mewnwelediad i ddiogelwch gwybodaeth yn y Brifysgol.

Nid yw'r polisi'n cynnwys metrigau diogelwch gwybodaeth ar lefel yr unigolyn.

## 3 Cysylltiad â pholisïau sy'n bodoli'n barod

Mae'r polisi hwn yn rhan o'r Fframwaith Rheoli Diogelwch Gwybodaeth. Dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Polisi Adolygu Diogelwch Gwybodaeth a phob polisi ategol.

## 4 Datganiad Polisi

Er mwyn asesu a rheoli perfformiad y Brifysgol o ran diogelwch gwybodaeth, mae angen cyfres gynhwysfawr a pherthnasol o fetrigau.

Dylai metrigau diogelwch gwybodaeth:

- Roi gwybod am berfformiad
- Gyrru gwelliannau
- Mesur effeithiolrwydd rheolaethau presennol

- Helpu i ganfod problemau
- Hwyluso penderfyniadau
- Rhoi mwy o atebolrwydd
- Llywio'r broses o ddyrannu adnoddau
- Arddangos lefelau cydymffurfio
- Hwyluso meincnodi gyda chyd-sefydliadau addysg uwch.

Nodweddion hanfodol pob metrig fydd yn cael ei ddefnyddio ar y cyd â'r polisi hwn yw y dylent fod:

- Yn angenrheidiol er mwyn bodloni gofyn busnes penodol
- Yn cael eu mesur yn gyson
- Yn gost-ffeithiol i'w creu
- Yn fesuradwy
- Wedi'u mynegi gan ddefnyddio o leiaf un uned mesur (e.e. nifer yr achosion o darfu ar y rhwydwaith mewn wythnos)

## 5 Newid dros amser

Wrth i aeddfedrwydd y Brifysgol o ran rheoli diogelwch gwybodaeth wella, bydd y categori o fetrigau fydd fwyaf defnyddiol i'r sefydliad yn datblygu. Bydd angen gwneud penderfyniadau ar adegau priodol ynglŷn ag a yw metrigau:

- Yn dal i fod yn ddefnyddiol ac i'w cynnwys wrth adrodd i'r Grŵp Goruchwylio Rheoli Data a Gwybodaeth.
- Ond yn ddefnyddiol ar lefel weithredol ac i'w gwahardd o adroddiad y Grŵp Goruchwylio Rheoli Data a Gwybodaeth.
- Ddim yn ddefnyddiol bellach a dylid stopio eu casglu.

## 6 Prif Fathau o Fetrigau

Bydd y mathau o fetrigau a ddefnyddir yn gymysgedd o'r isod gyda'r tueddiad dros amser yn golygu symud o fetrigau gweithredu gan amlaf, i fetrigau effeithlonrwydd ac effaith.

Metrigau gweithredu – e.e. % cynnydd dros amser o liniaduron wedi'u hamgryptio y mae'r Brifysgol yn berchen arnynt.

Metrigau Effeithlonrwydd/Effeithiolrwydd – e.e. % y staff sy'n cael eu twyllo gan ymarfer gwe-rwydo corfforaethol.

Metrigau effaith – e.e. gostyngiad mewn datgeliadau data sensitif oherwydd gliniaduron sydd wedi'u dwyn neu'n agored i niwed.

## 7 Adrodd

Bydd metrigau i adrodd amdanynt yn cael eu nodi yn y Matrics Metrigau Diogelwch Gwybodaeth fydd yn nodi:

- Enw'r metrig
- Beth sy'n cael ei fesur
- Sut mae'n cael ei fesur
- Pwy sy'n gyfrifol am fesur

- Disgrifiad cryno o'r metrig

## **8 Cyfrifoldebau**

Bydd yr Uwch Berchennog Risg Diogelwch yn gyfrifol am sicrhau bod metrigau priodol yn cael eu casglu a'u dadansoddi yn rhan o'r broses adolygu flynyddol a'u defnyddio i gyflawni gwelliannau parhaus fel y nodir yn y Polisi Adolygu ISF